Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Adroddiad Crynhoi'r Gyllideb 2022 i 2023

# Crynodeb o’r Gyllideb 2022-23

## Cynnwys

**Rhagarweiniad a Chrynodeb** 3
Setliad Llywodraeth Cymru (LlC) 2022/23 ... 3
Cyllideb Refeniw 2022/2023 ... 4
Cyllid Refeniw Sir Ddinbych 2022 / 2023 ... 7
Meysydd y gyllideb a’u dyraniadau ariannol ... 8
Balansau ... 8
Treth y Cyngor ... 9
Cynllun Cyfalaf 2022/23 ... 9
Y Stoc Dai ... 10
Casgliad ... 11

**Atodiad 1: Crynodebau Cyllideb Adrannol** 14
Crynodeb o gyllideb refeniw’r Cyngor ... 14
Cymunedau a Chwsmeriaid ... 14
Addysg a Gwasanaethau Plant ... 15
Ysgolion ... 16
Gwella Busnes a Moderneiddio ... 16
Y Gyfraith, Adnoddau Dynol a’r Gwasanaethau Democrataidd ... 17
Cyllid ac Eiddo ... 17
Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol ... 18
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ... 20
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol ... 21
Corfforaethol ac amrywiol ... 22

**Atodiad 2: Cynllun cyfalaf Cyngor Sir Ddinbych 2021/22 – 2024/25** 24
Cynllun Cyfalaf Cyffredinol ... 24
Cynllun Cyfalaf: Gwasanaethau ... 26

**Atodiad 3: Y Cyfrif Refeniw Tai a’r Cynllun Cyfalaf Tai** 36
Rhagarweiniad ... 36
Y Gyllideb Refeniw Tai ... 36
Polisi Rhent Llywodraeth Cymru ... 36
Cynllun Cyfalaf Tai ... 37
Cyfrif Refeniw Tai – Cyllideb 2022/23 ... 39

# Crynodeb o’r Gyllideb 2022-23

## Rhagarweiniad a Chrynodeb

Diben Llyfr y Gyllideb yw dangos i Aelodau, Swyddogion ac unrhyw un arall â diddordeb sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu gwario ei gyllidebau Refeniw a Chyfalaf. Bydd hefyd yn rhoi manylion y Cyfrif Refeniw Tai a’r Gyllideb Cyfalaf Tai ar gyfer 2022/23.

Mae’r wybodaeth a gyflwynir yn y llyfryn hwn yn rhoi manylion costau uniongyrchol gwasanaethau sydd o dan reolaeth deiliaid cyllideb. Mae cyllidebau 2022/23 yn cynnwys eitemau nad ydynt eto wedi’u neilltuo i wasanaethau, fel rhai cronfeydd wrth gefn ar gyfer chwyddiant a chyllidebau i dalu am waith trwsio a chynnal a chadw.

Pennir strategaeth ariannol y Cyngor yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae hon yn strategaeth ariannol dreigl tair blynedd ac mae’n helpu i ddarparu’r cyd-destun ar gyfer gweithgarwch y flwyddyn bresennol.

### Setliad Llywodraeth Cymru (LlC) 2022/23

Cafwyd y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2022/23 ar 21 Rhagfyr 2021 ac arweiniodd at setliad cadarnhaol o +9.2% oedd yn cymharu â sefyllfa gyfartalog Cymru o +9.4%. Roedd y Setliad Terfynol a gafwyd ar 2 Mawrth 2022 yn cadarnhau’r sefyllfa hon. O fewn y ffigur a gyhoeddwyd mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod nifer o gyfrifoldebau newydd, ac nid oes gan bob un ohonynt symiau canlyniadol clir yn y data. Mae’r disgwyliadau sy’n ofynnol i ni eu hariannu yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r holl godiadau cyflog ar gyfer swyddi addysgu a swyddi nad ydynt yn addysgu wedi'u cynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw.
- Cyfrifoldeb i dalu’r Cyflog Byw Gwirioneddol ein Gofal Cymdeithasol ein hunain ac y rhai Gofal Cymdeithasol yn y sector breifat.
- Costau gweithredol craidd mewn cysylltiad â'r Cyd-Bwyllgor Corfforaethol newydd.
- Lliniaru ar gyfer y ffaith bod Cronfa Galedi Covid yn dod i ben o ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

# Crynodeb o’r Gyllideb 2022-23

Fel yr addawyd gan LlC mae'r setliad drafft yn cynnwys codiadau setliad cyfartalog dangosol o 3.5% ar gyfer 2023/24 a 2.4% ar gyfer 2024/25 (amcangyfrif ffigurau CSDd fyddai 3.3% a 2.2%). Er bod hyn yn cael ei groesawu o safbwynt cynllunio, mae’n cynrychioli gostyngiad termau real mewn cyllid pan fo gwasgedd chwyddiannol yn cael ei ystyried. Mae’n eglur y bydd yr angen i wneud penderfyniadau anodd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.

Roedd y Setliad Terfynol yn dangos lleihad mewn cyllid cyfalaf o £0.933m i £5.103m.

## Cyllideb Refeniw 2022/2023

Yng nghyfarfod y Cyngor ar 25 Ionawr 2022 bu’r aelodau’n ystyried a chymeradwyo cynigion cyllideb y Cabinet ac effaith y rheiny ar Dreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Roedd prif nodweddion y cynigion yn cynnwys:

- Setliad cadarnhaol o +9.2% yn refeniw Llywodraeth Leol y Cyngor gan Lywodraeth Cymru.
- Lleihad yn arian cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru o £0.933m.
- Wedi ei gynnwys yn y Setliad mae ‘trosglwyddiadau i mewn’ (eitemau a ariannwyd gan grant yn flaenorol) o £0.275m sydd wedi eu trosglwyddo i’r meysydd gwasanaeth perthnasol fel mewn blynyddoedd blaenorol:
  - Ffioedd Clwyd ar gyfer Ailgylchu Gwastraff Rhanbarthol £0.109m
  - Grant Gweithle Gofal Cymdeithasol £0.166m.
- Pwysau cyflog (gan gynnwys effaith y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol) o £3m
- Chwyddiant prisiau ac ynni £0.250m.
- Ardoll y Gwasanaeth Tân o £0.321m.
- Lwfans ar gyfer cynnydd yng Nghynllun Gostyngiad Treth y Cyngor o £0.350m.
- Pwysau chwyddiant ysgolion yn cael ei gydnabod yn swm o £3.769m.
- Pwysau demograffig ysgolion o £0.606m.

# Crynodeb o'r Gyllideb 2022-23

- £3.127m i gydnabod pwysau'r galw a'r rhagolygon mewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol fel rhan o strategaeth hirdymor y cyngor i reoli cyllidebau gofal, yn ogystal â chydnabod yr agenda i sicrhau bod yr holl staff gofal yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol.
- £0.750m i gydnabod y pwysau presennol mewn Addysg a Gwasanaethau Plant sy'n ymwneud â Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir ac Adennill.
- £0.500m o bwysau i gwrdd â'r costau cynyddol o fewn Cludiant Ysgol sy'n dod yn amlwg yn y monitro misol.
- Buddsoddiad o £1.281m mewn blaenoriaethau:
    - Buddsoddiad pellach mewn Prosiect Di-Garbon o £0.440m, gyda £0.233m o hyn ar gyfer staff ychwanegol er mwyn ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol, a'r £0.207m yn weddill ar gyfer ariannu effaith refeniw gwariant cyfalaf (benthyca darbodus).
    - Cynnydd terfynol sy'n ofynnol ar gyfer cynllun Llifogydd y Rhyl, sy'n gyfanswm o £0.081m.
    - Buddsoddiad Cynyddol yn y Rhaglen Cyfalaf Priffyrdd fel y cynhigiwyd gan y Cyngor (£4m o gyfalaf) – angen amcangyfrif o £0.235m yn y Gyllideb Cyllid Cyfalaf.
    - Mae angen £0.175m er mwyn cynnal y lefelau presennol o Wariant Cyfalaf of fewn y Dyrianadau Bloc i wneud iawn am ddiffyg yng nghyllid LIC eleni.
    - Mae hyn yn gadael £0.350m y cynygir ei ddefnyddio yn y flwyddyn i ddechrau arainnu prosiectau cyfalaf yn ystod y flwyddyn (e.e y rhai a ddygwyd ymlaen gan yr ymarfer Sganio'r Gorwel neu a ddaw allan o'r Cynllun Corfforaethol newydd).
- Pwysau anstrategol o £1.111m ar wasanaethau – pwysau a gofynion ar gyfer buddsoddiadau a nodwyd gan y gwasanaethau eu hunain.
- Amcangyfrifir bod pwysau o £0.300m wedi'i gynnwys i dalu am elfen Cyngor Sir Ddinbych o'r gofyniad cyllidebol parhaus ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Corfforedig newydd.

# Crynodeb o'r Gyllideb 2022-23

- Yn wyneb graddfa'r setliad drafft sy'n nodi na fydd Cronfa Galedi Covid gyfferedinol y flwyddyn ariannol nesaf (ond bod arian wedi ei gynnwys o fewn y setlaid) mae arian at raid Covid o £1.988m wedi ei gynnwys. Y gobaith yw y bydd hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer costau untro na ellir eu hosgoi y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, byddwn yn edrych i ryddhau hwn y flwyddyn ganlynol i helpu i fantoli'r gyllideb.

Mae'r pwysau a nodwyd uchod yn dod i gyfanswm o £17.628m. Byddai angen setliad o tua 11% er mwyn ariannu'r pwysau hyn i gyd. Mae'r setliad net +9.2% yn cynhyrchu £15.005m o refeniw ychwanegol gan adael bwlch cyllido o £2.623m. Mae'r eitemau canlynol wedi eu cynnwys yn y cynigion er mwyn pontio'r bwlch hwnnw:


- Mae Cyllidebau Incwm Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd sy'n cynyddu incwm allanol o £0.120m.
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol gwerth £0.634m wedi'u nodi sydd o fewn cyfrifoldeb dirprwyedig y Penaeth Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol.
- Ni ofynnwyd am unrhyw arbedion gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol nac Ysgolion.
- Argymhellir bod Treth y Cyngor yn cynyddu o 2.95% a fydd, ynghyd â mân nwidiadau i sylfaen y Dreth Gyngor, yn creu refeniw ychwanegol o £1.869m. Mae hyn yn cymharu â chynnydd y llynedd o 3.38% a 4.3% y flwyddyn cyn hynny.

Y gyllideb refeniw gros ar gyfer 2022/23 yw £331.545m. Bydd y Cyngor yn cynhyrchu neu'n derbyn £41.914m mewn ffioedd a thaliadau ac incwm arall, ac yn derbyn £55.935m mewn grantiau penodol, gan adael cyllideb refeniw net o £233.692m i'w ddiwallu gan Lywodraeth Cymru a Threthdalwyr. Mae'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2022/23 yn £139.190m ac mae dyraniad y cyngor o gronfa'r Trethi Annomestig Cenedlaethol yn £34.451m, gan roi ffigwr Cyllid Allanol Cyfun o £173.641m. Yr incwm a ddisgwylir o Dreth y Cyngor yw £60.055m. Mae'r gyllideb o £233.696m yn £0.810m yn uwch na'r Asesiad

# Crynodeb o'r Gyllideb 2022-23

Gwario Safonol sef £232.886m – amcangyfrifiad Llywodraeth Cymru o'r hyn sydd ei angen i ddarparu 'lefel gwasanaeth safonol'.

## Cyllid Refeniw Sir Ddinbych 2022 / 2023




Mae'r cynnydd ar gyfer y gyllideb fel a ganlyn:

| Maes refeniw | Canran |
|---|---|
| Setliad Llywodraeth Cymru | 52% |
| Grantiau Penodol | 17% |
| Treth y Cyngor | 18% |
| Ffioedd/Eraill | 13% |

# Crynodeb o’r Gyllideb 2022-23

## Meysydd y gyllideb a’u dyraniadau ariannol

| Maes cyllideb | Dyraniad ariannol |
|---|---:|
| Cyllideb Sylfaenol 2022 / 2023 | 216,819,000 |
| Diogelu a Chwyddiant | 3,801,000 |
| Pwysau Gwasanaeth | 4,677,000 |
| Cynnydd yng Nghyllidebau Ysgolion | 4,375,000 |
| Grantiau sydd bellach wedi’u cynnwys neu sydd wedi’u trosglwyddo allan o'r setliad | 275,000 |
| Buddsoddi mewn blaenoriaethau ac arian wrth gefn | 2,392,000 |
| Arian wrth gefn | 1,988,000 |
| Arbedion yn ymwneud â gwasanaethau penodol ac arbedion effeithlonrwydd | -634,000 |
| **Cyllideb Refeniw Net 2022 / 23** | **233,693,000** |

Mae Atodiad 1 yn dangos crynodeb o’r gyllideb refeniw fesul gwasanaeth ar gyfer 2021/22 a 2022/23.

## Balansau

Mae’r Cyngor wedi datblygu balansau cyffredinol o £7.135m ar 31 Mawrth 2022, yn ogystal â lefel doeth o arian penodol wrth gefn.  O ganlyniad i’r setliadau ariannol gwell na’r cyfartaledd gan LIC dros y tair blynedd ddiwethaf, roedd modd gosod cyllideb 2022/23 heb ddefnyddio arian wrth gefn. Bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o’r broses gyllidebol flynyddol barhaus. Byddai’n rhaid i’r defnydd o arian parod gael ei adennill dros flynyddoedd i ddod ond gellir ei ddefnyddio, ac mae wedi cael ei ddefnyddio, i esmwytho effaith gostyngiadau cyllid mewn modd wedi’i gynllunio.

# Crynodeb o’r Gyllideb 2022-23

## Treth y Cyngor

Eleni cytunodd aelodau etholedig ar gynnydd o 2.95% yn Nhreth y Cyngor.  Mae Treth y Cyngor sy’n daladwy ar gyfer pob band eiddo am wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych wedi’i nodi isod:

| **Band Treth** | **2022/23** | **2021/22** |
|---|---:|---:|
| A | 986.11 | 957.84 |
| B | 1,150.46 | 1,117.48 |
| C | 1,314.81 | 1,277.12 |
| D | 1,479.16 | 1,436.76 |
| E | 1,807.86 | 1,756.03 |
| F | 2,136.56 | 2,075.31 |
| G | 2,465.27 | 2,394.59 |
| H | 2,958.32 | 2,873.51 |
| I | 3,451.37 | 3,352.43 |

## Cynllun Cyfalaf 2022/23

Mae’n rhaid i’r Cyngor gyfrif am ei fuddsoddiad yn ei asedau sefydlog ar wahân i drefniadau beunyddiol y sefydliad.  Fe fydd prosiectau cyfalaf yn prynu, trwsio, adnewyddu a datblygu asedau fel y gellir parhau i’w defnyddio yn y dyfodol.

Yn Setliad Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23 bu gostyngiad o 15.45% (£0.933m) o’i gymharu â 2021/22. Mae hyn yn barhad o’r setliadau cyfalaf gwael a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru dros y deng mlynedd diwethaf.

Roedd y Setliad Terfynol yn dangos lleihad mewn cyllid cyfalaf o £0.933m i £5.103m. Mae hyn yn golygu fod rhaid i’r Cyngor barhau i ddibynnu ar ei adnoddau ei hun i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol a blaenoriaethau lleol. Mae hyn yn golygu clustnodi adnoddau i gynhyrchu arian, gan ddefnyddio benthyca darbodus neu hyd yn oed werthu asedau i gynhyrchu derbyniadau.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cynhyrchu cynllun cyfalaf 3 blynedd sy'n rhoi manylion ynglŷn â lle y mae'n debygol o wario ei arian. Bydd pob cais am adnoddau cyfalaf yn cael

ei adolygu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (grŵp sy'n cynnwys aelodau etholedig ac uwch swyddogion) cyn y bydd yn cael ei ystyried ar gyfer ei gynnwys yn y Cynllun Cyfalaf. Cytunwyd ar y Cynllun Cyfalaf ar gyfer 2021/22 i 2024/25 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 23 Chwefror 2022. Ceir crynodeb o'r Cynllun Cyfalaf ar Atodiad 2.

## Y Stoc Dai

Mae gan y Cyngor ddwy swyddogaeth o ran tai. Mae'r cyntaf yn swyddogaeth statudol i fynd i'r afael â digartrefedd yn y Sir. Mae'r ail fel landlord stoc dai'r Cyngor, sy'n cynnwys tua 3,378 o anheddau. Tra bod y gyllideb ddigartrefedd wedi'i chynnwys yng nghyllideb refeniw cyffredinol y Cyngor, mae'n rhaid i'r stoc dai gael ei chyfrif ar wahân.

Mae'r gyllideb ar gyfer y stoc dai wedi'i chadw yn y Cyfrif Refeniw Tai. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i hwn gael ei gadw yn hollol ar wahân i wasanaethau eraill. Ni all Treth y Cyngor gael ei ddefnyddio i ariannu unrhyw wariant Cyfrif Refeniw Tai ac ni ellir defnyddio rhenti tai ar gyfer unrhyw beth heblaw gwasanaethau tai. Cafodd Cyllideb Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 18 Ionawr 2022. Amcangyfrifir y bydd yn gwario £17.585m, wedi'i ariannu gan renti tai sef £16.862m, incwm arall o £0.719m, a defnyddio £0.004m o falansau cyffredinol. Mae'r cynllun cyfalaf tai ar gyfer 2022/23 yn cynnwys cyfanswm o £22.823m i'w wario ar wella'r stoc dai, buddsoddi mewn caffaeliadau ac adeiladau newydd a gwelliannau eraill.

Mae Cynllun Busnes y Stoc Dai (CBST) presennol yn tybio y cynhelir balans o £1m dros y tymor canolig i liniaru rhag unrhyw risgiau yn y dyfodol. Mae'r lefel hon o falans a gedwir yn cyfateb i 5.7% o'r trosiant refeniw blynyddol a thybir fod hyn yn ddarbodus a chall yn yr hinsawdd economaidd bresennol, gan ganiatáu rhywfaint o allu i ymateb i unrhyw amgylchiadau annisgwyl sy'n codi yn ystod tymor byr y Cynllun hyd at y tymor canolig. Mae cynnal y balans ar lefel hylaw yn lleihau'r angen i ymestyn y lefel bresennol o fenthyca gydag arbedion mewn costau ariannu cyfalaf blynyddol yn deillio o hyn. Mae'r strategaeth hon hefyd yn caniatáu ar gyfer posibilrwydd pellach yn y blynyddoedd sydd i ddod o ran y Cynllun i ymestyn y gofyniad benthyca os oes angen.

# Crynodeb o’r Gyllideb 2022-23

Cyflawnodd y Cyngor Safon Ansawdd Tai Cymru gyda’r Stoc Tai cyfan ym mis Medi 2014. Mae gwariant cyfalaf wedi cael ei gynnwys yn y CBST sy’n sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i barhau i gynnal y safon hon dros y cynllun 30 mlynedd. Mae'r arolwg o gyflwr y stoc wedi nodi gwaith atgyweirio, cynnal a chadw a chostau gwella ar gyfer y 30 mlynedd nesaf sydd o ganlyniad wedi eu cynnwys yn y cynllun busnes.

Mae crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai wedi’i gynnwys yn y Llyfr Cyllideb hwn.

## Casgliad

Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd ynghylch lefel y setliadau ariannol yn y blynyddoedd diwethaf wedi ei gwneud yn fwy heriol i gynllunio’n ariannol mewn amgylchiadau a oedd eisoes yn anodd.

Er y croesawir cynnydd diweddar yn y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, nid yw’r setliad yn llwyddo i gadw gyda’r pwysau sy’n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru ac felly mae’n ostyngiad mewn termau real. Ysgolion a gofal cymdeithasol sy’n cynrychioli’r elfennau mwyaf arwyddocaol o gyllideb y cyngor ac mae costau'r rhain yn cynyddu y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael. Mae pwysau hefyd yn cynyddu mewn meysydd eraill. Tra bydd y cyngor bob amser yn ceisio bod yn fwy effeithlon i arbed arian nid yw bellach yn bosibl i fynd i’r afael â’r bwlch cyllido drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig ac mae rhaid cael cydbwysedd gofalus rhwng arbedion gwasanaeth a threthi lleol. Mae’r darn o’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol yn dangos gofyniad i arbed dros £2.2m yn 2023 a £2.6m y flwyddyn ganlynol. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ffurf y cyngor a’r gwasanaethau y mae’n eu darparu yn y dyfodol.

Mae’n debygol na fydd setliadau cyllido llywodraeth leol yn y dyfodol yn gallu cadw ar yr un lefel â phwysau chwyddiant a fydd yn arwain at ostyngiad mewn cyllid termau real. Tra bod ansicrwydd ynglŷn ag union lefelau’r gostyngiad bob blwyddyn, mae’n anochel y bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau bod y Cyngor yn byw o fewn ei incwm ac yn parhau i gyflawni ei flaenoriaethau. Fodd bynnag, oherwydd bod y Cyngor wedi llwyddo i nodi a chyflawni arbedion gan reoli cronfeydd wrth gefn a balansau yn ofalus yn y

gorffennol, gellir bod yn hyderus iawn y bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol gan fuddsoddi rhywfaint ym Mlaenoriaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Ni fydd Cronfa Galedi Covid gyffredinol yn 2022/23 ac roedd y setliad cyffredinol yn cydnabod effaith barhaus y pandemig ar wasanaethau y bydd angen i'r Cyngor eu rheoli. Rhagwelir y bydd cymorth ariannol penodol Llywodraeth Cymru tuag at gostau ychwanegol mewn perthynas â'r pandemig yn parhau ar gyfer y canlynol:


- Taliadau Hunan-Ynysu – 30 Mehefin 2022
- Tâl Salwch Statudol ychwanegol – 30 Mehefin 2022
- Taliadau Cinio Ysgol Am Ddim – diwedd gwyliau ysgol haf 2022

Cytunwyd ar Broses Cyllideb 3/5 Mlynedd a Chynllun Ariannol Tymor Canolig i helpu i sicrhau bod y Cyngor yn y sefyllfa orau posibl i wynebu'r her. Mae'r broses yn cael ei hadolygu a'i mireinio'n flynyddol ac mae agweddau a nodau allweddol Proses y Gyllideb ar gyfer 2023/24 a thu hwnt yn cynnwys:

- Dal pwysau cyllidebol yn seiliedig ar wasanaethau (o dan £100k)
- Nodi pwysau cyllidebol strategol allweddol (dros £100,000)
- Nodi targedau Effeithlonrwydd Gwasanaeth
- Cynllun Arbedion 5 mlynedd – canolbwyntio ar brosiectau allweddol a adnabuwyd yn ystod proses y gyllideb y llynedd
- Cronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn helpu i roi hwb i brosiectau effeithlonrwydd o bwys
- Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu

# Crynodeb o'r Gyllideb 2022-23

Caiff cydweithrediad a gwaith caled swyddogion ac aelodau wrth baratoi'r gyllideb ei gydnabod yn ddiolchgar.



**Steve Gadd**
**Pennaeth Cyllid ac Eiddo (Swyddog Adran 151)**

# Crynodeb o'r Gyllideb 2022-23

## Atodiad 1: Crynodebau Cyllideb Adrannol

### Crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor

| **Adran** | **2022/23** | **2021/22** |
|---|---|---|
| Cymunedau a Chwsmeriaid | 3,437,138 | 3,463,095 |
| Cyllid | 18,540,391 | 17,933,811 |
| Addysg a Gwasanaethau Plant | 81,649,262 | 76,606,793 |
| Ysgolion | 5,140,884 | 4,659,570 |
| Gwella Busnes a Moderneiddio | 2,520,069 | 2,418,199 |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd | 5,961,538 | 4,757,416 |
| Cyfleusterau, Asedau a Thai | 16,510,509 | 16,185,781 |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 10,271,734 | 9,805,245 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 43,299,858 | 40,012,650 |
| Gwasanaethau Cymorth Cymunedol | 3,273,174 | 3,408,749 |
| **Cyfanswm gwasanaethau** | **190,604,557** | **179,251,309** |
| Corfforaethol ac amrywiol | 21,754,655 | 16,991,951 |
| Praeseptau ac ardollau | 5,381,432 | 5,060,195 |
| Ariannu cyfalaf | 15,955,545 | 15,514,545 |
| **Cyfanswm cyllideb y cyngor** | **233,696,189** | **216,818,000** |

### Cymunedau a Chwsmeriaid

| **Maes Gwasanaeth** | **2022/23** | **2021/22** |
|---|---|---|
| **Rheoli a chymorth** | **138,323** | **139,152** |
| **Sir Ddinbych yn Gweithio** | **162,549** | **163,940** |
| **Marchnata Cyrchfannau a Chyfathrebu** | | |
| Cyfathrebu Corfforaethol | 406,882 | 362,434 |
| Eisteddfod Ryngwladol Llangollen | 1,000 | 16,143 |
| Twristiaeth | 243,053 | 246,552 |
| Prosiectau corfforaethol | 168 | 23,000 |
| **Cyfanswm marchnata cyrchfannau a chyfathrebu** | **651,103** | **648,129** |
| **Llyfrgelloedd a gwasanaethau'r celfyddydau** | | |
| Llyfrgelloedd | 1,169,876 | 1,172,721 |
| Gwasanaeth llyfrgell i'r cartref | 24,862 | 24,853 |
| Llyfryddiaeth | 20,939 | 20,939 |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2022-23

| Maes Gwasanaeth | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Y capel | 36,783 | 35,603 |
| Siopau un alwad | 733,084 | 742,172 |
| **Cyfanswm llyfrgelloedd a gwasanaethau'r celfyddydau** | **1,985,544** | **1,996,288** |
| Gwasanaeth Ieuenctid | **499,619** | **515,586** |
| **Cyfanswm Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata** | **3,437,138** | **3,463,095** |

## Addysg a Gwasanaethau Plant

| Maes Gwasanaeth | 2022/23 | 2022/23 |
|---|---|---|
| **Addysg** | | |
| Rheoli a chymorth | 380,282 | 380,931 |
| Tîm Staffio Craidd | 268,432 | 271,496 |
| Rheoli asedau | 166,032 | 165,821 |
| Cymorth busnes | 232,724 | 233,600 |
| Moderneiddio addysg | 72,400 | 73,658 |
| Cymorth i Lywodraethwyr | 2,383 | 2,763 |
| Costau ad-drefnu ysgolion | 144,146 | 159,146 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a chynhwysiant | 2,700,944 | 2,670,038 |
| Adennill costau a OCC | -186,405 | -186,405 |
| Grantiau SI ac I | 386,626 | 386,626 |
| Gwella Ysgolion | 1,561,659 | 1,557,948 |
| **Cyfanswm addysg** | **5,729,223** | **5,715,622** |
| **Gwasanaethau Plant** | | |
| Gwasanaethau cefnogi teuluoedd | 1,015,296 | 1,015,705 |
| Gwasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal | 7,451,709 | 6,701,709 |
| Gwasanaethau plant eraill | 450,781 | 475,519 |
| Diogelu ac adolygu | 415,636 | 417,599 |
| Strategaeth y gwasanaeth | 3,183,718 | 3,314,033 |
| Troseddau ieuenctid | 294,028 | 293,624 |
| **Cyfanswm y gwasanaethau plant** | **12,811,168** | **12,218,189** |
| **Cyfanswm addysg a gwasanaethau plant** | **18,540,391** | **17,933,811** |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2022-23

## Ysgolion

| Maes Gwasanaeth | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Ysgolion - dirprwyedig | **85,855,102** | **81,504,377** |
| **Ysgolion - annirprwyedig** | | |
| Addysg gynradd | -1,693,215 | -2,724,106 |
| Uwchradd | -2,517,017 | -2,180,760 |
| Ysgolion arbennig | 4392 | 7282 |
| **Cyfanswm ysgolion – annirprwyedig** | **-4,205,840** | **-4,897,584** |
| **Cyfanswm ysgolion** | **81,649,262** | **76,606,793** |

## Gwella Busnes a Moderneiddio

| Maes Gwasanaeth | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Rheoli gwybodaeth | 338,638 | 338,731 |
| Tîm rheoli Modelu Gwybodaeth Adeiladu | 344,678 | 384,325 |
| Cynllunio strategol | 321,101 | 321,563 |
| Swyddfa rhaglenni corfforaethol | 47,317 | 104,364 |
| Archwilio | 198,918 | 199,182 |
| Diogelwch cymunedol | 32,701 | 32,578 |
| Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol | 832,052 | 392,573 |
| **Cyfanswm Gwella Busnes a Moderneiddio** | **2,115,405** | **1,773,316** |
| **TGCh** | | |
| Rheoli TGCh | 2,403,947 | 2,263,915 |
| Cefnogaeth darparu gwasanaeth | 601,532 | 601,532 |
| Seilwaith TGCh | 20,000 | 20,807 |
| **Cyfanswm TGCh** | **3,025,479** | **2,886,254** |
| **Cyfanswm Gwella Busnes a Moderneiddio** | **5,140,884** | **4,659,570** |

# Crynodeb o’r Gyllideb 2022-23

## Y Gyfraith, Adnoddau Dynol a’r Gwasanaethau Democrataidd

| Maes Gwasanaeth | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Rheoli a chymorth | 161,388 | 161,963 |
| Gweinyddu | 481,140 | 408,340 |
| Cyfreithwyr y sir | 619,813 | 623,215 |
| Dinesig | 4,950 | 5,050 |
| Cyfieithu | 150,000 | 150,000 |
| Caffael | 226,958 | 226,683 |
| Cofrestrydd – genedigaethau/marwolaethau/priodi | -32,847 | -27,980 |
| Cofrestru etholwyr | 119,983 | 119,926 |
| **Cyfanswm y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** | **1,731,385** | **1,667,197** |
| | | |
| **Adnoddau dynol strategol** | | |
| Rheoli a chymorth | -125,189 | -125,189 |
| Hyfforddiant | 45,157 | 45,133 |
| Iechyd Galwedigaethol | -14,699 | -14,771 |
| Adnoddau gweithwyr a chysylltiadau | 883,415 | 845,829 |
| **Cyfanswm adnoddau dynol strategol** | **788,684** | **751,002** |
| | | |
| **Cyfanswm y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd** | **2,520,069** | **2,418,199** |

## Cyllid ac Eiddo

| Maes Gwasanaeth | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| **Cyllid Corfforaethol** | | |
| Y Trysorydd a chymorth | 197,753 | 148,181 |
| Cyfrifon | 1,184,547 | 1,153,377 |
| | | |
| Y Trysorlys | 366,929 | 383,988 |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **1,749,229** | **1,685,546** |
| | | |
| **Refeniw a Budd-daliadau** | | |
| | | |
| Refeniw | 1,518,649 | 1,518,649 |
| Costau Casglu | -281,981 | -281,981 |
| **Cyfanswm Refeniw a Budd-daliadau** | **1,236,668** | **1,236,668** |
| | | |
| **Rheoli Eiddo ac Asedau** | | |
| Rheoli Asedau | 197,348 | 109,160 |

# Crynodeb o’r Gyllideb 2022-23

| Maes Gwasanaeth | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Adeiladau Cymunedol | 147 | -7,422 |
| Gofod Swyddfa | 1,140,754 | 1,058,630 |
| Rheoli Cyfleusterau Ysgolion | 2,454 | 2,369 |
| Derbyn | 38,796 | 38,693 |
| Cydymffurfedd Adeiladau | 50,004 | 100,648 |
| Datblygiad a Buddsoddiadau | 45,062 | 47,014 |
| Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | 180,321 | 183,768 |
| Rheolwr Asedau Strategol | 76,498 | 77,194 |
| Prisio ac Ystadau | -404,647 | -408,633 |
| Rheoli a Chymorth | 222,584 | 230,586 |
| Cynnal a Chadw Cyfleusterau | 1,241,844 | 219,036 |
| Dylunio ac Adeiladu | 13,548 | 13,231 |
| Iechyd a Diogelwch Eiddo | 170,928 | 170,928 |
| **Cyfanswm Rheoli Eiddo ac Asedau** | **2,975,641** | **1,835,202** |
| **Cyfanswm Cyllid ac Eiddo** | **5,961,538** | **4,757,416** |

## Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol

| Maes Gwasanaeth | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| **Rheoli Gwasanaeth** | | |
| Rheoli | 446,741 | 446,966 |
| Storfeydd | 59,148 | 59,149 |
| Depos | 204,968 | 161,738 |
| **Cyfanswm Rheoli Gwasanaeth** | **710,857** | **667,853** |
| **Priffyrdd Strategol** | | |
| Yr arfordir | 251,562 | 242,231 |
| Pontydd ac adeileddau | 347,475 | 347,550 |
| Cynllunio rhag argyfwng | 87,791 | 87,791 |
| Rheoli perygl llifogydd | 36,211 | 36,888 |
| Rheoli asedau priffyrdd | 2,244,735 | 2,104,948 |
| Hawliau tramwy | 257,923 | 257,908 |
| Gwaith stryd | -155,526 | -147,554 |
| **Cyfanswm priffyrdd strategol** | **3,070,171** | **2,929,762** |
| **Gwasanaethau Stryd** | | |
| Rheoli a gweinyddu | -176,622 | -295,236 |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2022-23

| Maes Gwasanaeth | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Stryd y gogledd | 2,001,686 | 2,002,241 |
| Gwasanaethau Stryd y de | 890,738 | 890,610 |
| Cynnal a Chadw Gaeaf | 676,431 | 676,431 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Stryd** | **3,392,233** | **3,274,046** |
| | | |
| **Gwella Gwasanaeth a Fflyd** | | |
| Fflyd | -66465 | -46105 |
| Ansawdd a Pherfformiad | 233,268 | 234,601 |
| **Cyfanswm Gwella Gwasanaeth a Fflyd** | **166,803** | **188,496** |
| | | |
| **Yr uned waith** | | |
| Grŵp prosiectau mawr | -83,194 | -83,085 |
| Goleuadau stryd | 1,090,865 | 1,038,204 |
| **Cyfanswm yr uned waith** | **1,007,671** | **955,119** |
| | | |
| **Arlwyo, Glanhau a Chyfleusterau Cyhoeddus** | | |
| Glanhau Adeiladau | 260,275 | 295,231 |
| Arlwyo | 778,188 | 867,920 |
| Cyfleusterau Cyhoeddus | 257,655 | 252,373 |
| **Cyfanswm Cyfleusterau** | **1,296,118** | **1,415,524** |
| | | |
| **Gwasanaethau Gwastraff** | | |
| Casglu Sbwriel | 921,115 | 931,030 |
| Gwaredu Gwastraff | 1,805,012 | 1,805,742 |
| Ailgylchu | 2,171,678 | 2,126,448 |
| Gorsafoedd trosglwyddo | -162,477 | -161,327 |
| Gwastraff Masnach | -20,127 | -20,127 |
| Gwasanaeth Gwastraff Gardd | 206,399 | 224,093 |
| Rheoli a Gweinyddu Gwastraff | 776,547 | 796,578 |
| Casglu Ymyl Palmant (Cymysg) | 6,153 | 0 |
| Gwastraff bwyd | 1,115,404 | 1,005,492 |
| Ailgylchu Masnachol | -31,192 | -31,084 |
| Eitemau mawr a Danfon | 78,144 | 78,136 |
| **Cyfanswm y Gwasanaethau Gwastraff** | **6,866,656** | **6,754,981** |
| | | |
| **Cyfanswm Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol** | **16,510,509** | **16,185,781** |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2022-23

## Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

| Maes Gwasanaeth | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| **Cefn Gwlad, Diwylliant a Threftadaeth** | | |
| Cefn gwlad | 894,256 | 801,609 |
| Treftadaeth | 316,704 | 377,388 |
| **Cyfanswm Cefn Gwlad, Diwylliant a Threftadaeth** | **1,210,960** | **1,178,997** |
| **Traffig a pharcio** | | |
| Rheoli traffig a pharcio | 116,092 | 116,475 |
| Gwasanaethau parcio | -831,070 | -798,105 |
| Rheoli datblygiad priffyrdd | 48,135 | 48,918 |
| Diogelwch ar y ffyrdd | 317,988 | 317,140 |
| Rheoli traffig | 185,399 | 187,911 |
| **Cyfanswm traffig a pharcio** | **-163,456** | **-127,661** |
| **Cludiant** | | |
| Cludiant Cyhoeddus | 525,678 | 525,511 |
| Cludiant i'r Ysgol | 6,304,332 | 5,804,009 |
| **Cyfanswm Cludiant** | **6,830,010** | **6,329,520** |
| **Datblygu Economaidd a Busnes** | **314,084** | **341,963** |
| **Cynllunio** | | |
